

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Hosbis Plant Tŷ Gobaith

Dyddiad arolygu: 9 a 10 Hydref
2018

Dyddiad cyhoeddi: 14 Ionawr
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	29
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Hosbis Plant Tŷ Gobaith ar 9 a 10 Hydref.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC, un adolygwr cymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, roedd peth dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau/rheoliadau ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Ansawdd yr amgylchedd a'r cyfarpar
- Y ffordd roedd y staff yn rhyngweithio â'r rhieni
- Darparu gofal wedi'i bersonoli drwy gynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Cymorth i deuluoedd
- Trosolwg gan y rheolwyr a thîm rheoli amlwg
- Cefnogaeth a goruchwyliaeth i'r staff
- Systemau archwilio ac adrodd

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos gwybodaeth am gwyno
- Rhai agweddau ar reoli meddyginiaeth
- Cydleoli cyfarpar dadebru
- Hyfforddiant rheoli heintiau i'r nyrs arweiniol
- Arddangos canlyniadau archwilio

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn mewn cysylltiad â rheoli meddyginiaeth. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Cafodd Hosbis Tŷ Gobaith, Lôn Tremorfa, Groesynydd, Conwy, ei chofrestru gyntaf fel ysbyty annibynnol yn 2004. Mae'r hosbis wedi'i chofrestru i ddarparu gofal lliniarol arbenigol i blant a phobl ifanc o fabanod newydd-anedig i 25 oed. Gellir darparu llety i hyd at bum claf ar unrhyw adeg. Y darparwr cofrestredig yw Hope House Children's Hospices, sydd wedi'i leoli yn Hope House, Nant Lane, Morda, Swydd Amwythig.

Cyfleuster a adeiladwyd yn bwrpasol yw'r hosbis, sydd wedi'i lleoli mewn ardal wledig, ar ei safle ei hun, sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r hosbis yn elwa ar olygfeydd panoramig o Aber afon Conwy a'r cefn gwlad o'i hamgylch. Ceir mynediad da i bob rhan o'r safle, a cheir ardaloedd chwarae awyr agored lle gall y plant, y bobl ifanc a'u teuluoedd, fwynhau'r cyfleusterau.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Gofal (sef yr unigolyn cyfrifol enwebedig yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 hefyd), rheolwr cofrestredig, nyrsys, gweithwyr cymorth gofal iechyd, gweithiwr cymdeithasol, swyddogion cyllid a chodi arian, swyddogion adnoddau dynol, staff cadw tŷ, staff domestig a staff cynnal a chadw. Mae'r hosbis hefyd wedi'i chefnogi gan dîm o wirfoddolwyr, therapyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol y GIG. Darperir ystod o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Therapiau a thriniaethau, gan gynnwys gofal lliniarol, rheoli poen a symptomau
- Cymorth emosiynol a gwasanaethau cwnsela, gan gynnwys cymorth teulu a phrofedigaeth
- Therapi creadigol, cerddoriaeth a chwarae
- Gwasanaethau allgymorth

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwnaeth y rhieni/gwarcheidwaid y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad fynegi eu boddhad â'r gofal a'r driniaeth a ddarperir yn Nhŷ Gobaith. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol iawn rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus.

Gwelsom staff yn ymdrin â'r cleifion mewn modd digynnwrf a oedd yn tawelu'r meddwl.

Roedd amgylchedd yr hosbis gyfan yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC a siarad â'r cleifion a'u rhieni er mwyn cael gwybod eu barn am safon y gofal a gawsant yn yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o 16 o holiaduron wedi'u cwblhau, rhai ohonynt gan gleifion, ond yn bennaf gan rieni a oedd wedi cwblhau'r holiadur ar ran eu plentyn.

Roedd yr adborth a gafwyd drwy'r holiaduron yn gadarnhaol iawn; roedd pawb o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn rhagorol, ac yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu a darparu triniaethau, a bod y staff yn darparu gofal pan oedd ei angen. Ymhlith y sylwadau yn yr holiaduron am y gofal a ddarperir yn yr hosbis, roedd y canlynol:

“Mae'r lle hwn yn dda, nid gartref ydyw, ond mae llawer o bethau cŵl yma”

“Mae Tŷ Gobaith yn wasanaeth anhygoel a byddem ar goll hebdo”

“Mae'r gofal a'r driniaeth gan Dŷ Gobaith wedi bod, ac yn parhau i fod, yn anhygoel. Lle rhagorol i'r plant ddod ac ymlacio ac rydych chi'n gwybod eu bod yn ddiogel ac yn hapus pan nad ydych chi yno”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom ryngweithio da iawn rhwng y staff a chleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd gochelgar a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Gwelsom fod y gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar y cleifion, yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mai prif flaenoriaethau'r staff yw gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'r perthnasau/gwarcheidwaid.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith, a chawsai'r rhain eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da ar waith. Roedd yr ardaloedd cymunedol, yr ystafelloedd gwely a'r safle yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelwch personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledu.

Urddas a pharch

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm staff.

Gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig ac yn barchus tuag at gleifion. Gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i ddiogelu preifatrwydd ac urddas cleifion wrth roi cymorth gydag anghenion gofal personol.

Ymddengys bod y cleifion yn cael gofal da, gyda'r staff yn rhoi sylw penodol i'w hymddangosiad a'u dillad.

Roedd yr amgylchedd wedi'i ddylunio mewn modd ystyrlon; roedd yr ystafelloedd yn fawr, ac roedd safon y dodrefn a'r gwaith addurno yn dda iawn. Gallai'r cleifion a'r perthnasau ddefnyddio'r ardaloedd eistedd/bwyta cymunedol ac roedd yna hefyd ardaloedd eistedd/lolfa llai i bobl yr oedd yn well ganddynt amgylchedd mwy preifat. Gallai perthnasau aros dros nos yn un o'r tair ystafell deulu benodedig, a oedd wedi'u dodrefnu'n dda.

Roedd mynediad i gyfleusterau toiled ac ymolchi yn ystafelloedd y cleifion, gyda theclynnau codi yn sownd i'r nenfwd er mwyn helpu i'w symud. Roedd yr ystafelloedd ymolchi i gyd yn fawr ac yn cynnwys cyfarpar da.

Hefyd, roedd y cleifion yn gallu defnyddio:

- Iolfa i bobl yn eu harddegau/pobl ifanc, a ddyluniwyd yn arbennig i ddiwallu anghenion cleifion hŷn
- ystafell amlsynhwyrol
- ystafell therapi sy'n cael ei defnyddio mewn modd hyblyg, gan gynnwys at ddibenion ffisiotherapi therapiau cyflenwol fel tylino'r corff a therapi cerddoriaeth
- ystafell chwarae ar gyfer celf a chrefft
- chwarae â thywod a dŵr
- ystafell gyfrifiaduron gyda chyfrifiaduron personol, consolau gemau, IPads, offer play station a mynediad i'r we wedi'i reoli
- ystafell gwnsela ac ystafell addas ar gyfer gwaith grŵp
- Iolfa fach i rieni yn arwain at gysgodfan ysmygu y tu allan.

Mae gan yr hosbis hefyd ystafell wely arbennig o'r enw Snowflake Suit. Cyfleuster yw hwn sy'n caniatáu i'r plentyn/person ifanc orwedd, ar ôl iddynt farw, mewn amgylchedd heddychlon, gan roi'r cyfle i'w rieni/rhieni a'i ffrindiau ffarwelio yn eu hamser eu hunain ac yn eu ffordd eu hunain. Ceir hefyd ardd dawel sy'n lle preifat i'w ddefnyddio gan deuluoedd yn eu profedigaeth.

Drwy gydol yr arolygiad, roedd yr amgylchedd yn dawel, yn ddigynnwrf ac yn helpu'r bobl i ymlacio.

Roedd ffotograffau o gleifion presennol a chyn-gleifion ar waliau'r prif goridor. Gwnaed hyn â chydsyniad y cleifion a/neu eu rhieni/gwarcheidwaid. Gwnaethom gynghori y dylai'r broses o roi lluniau ar y waliau gael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr arfer yn unol â dymuniadau cleifion a'u rhieni/gwarcheidwaid ac nad ydyn nhw, nac ymwelwyr â'r hosbis, yn cael eu cynhyrfu gan yr arfer.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd gwybodaeth a llyfrynnau yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn gwahanol rannau o'r hosbis.

Roedd yr hosbis hefyd yn cynhyrchu llythyr newyddion yn cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau codi arian a datblygiadau.

Mae gan yr hosbis ddatganiad o ddiben cynhwysfawr a chanllaw i gleifion sy'n bodloni gofynion y rheoliadau o ran ei gynnwys. Roedd y datganiad o ddiben wrthi'n cael ei adolygu ar adeg yr arolygiad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd digynnwrf, cyfeillgar a siriol. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd anogol a chynhwysol.

Mae llawer o'r cleifion sy'n defnyddio'r hosbis yn siarad Cymraeg. Roedd llawer o'r staff yn siarad Cymraeg hefyd, a oedd yn helpu'r cyfathrebu ac yn golygu bod y cleifion yn gallu cael gwasanaeth yn eu dewis iaith.

Nid oedd gan yr hosbis gyfleuster dolen glywed i helpu cleifion ac ymwelwyr â nam ar eu clyw, a gwnaethom awgrymu y dylid ystyried gosod cyfleuster o'r fath er mwyn hwyluso cyfathrebu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried gosod cyfleuster dolen glywed i helpu cleifion ac ymwelwyr â nam ar eu clyw.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion a welsom yn dda ar y cyfan. Gwelsom dystiolaeth fod asesiadau gofal cynhwysfawr yn cael eu cynnal a'u bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl hefyd, ac yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Roedd y gwerthusiadau ysgrifenedig a gaiff eu llunio gan y staff gofalu ar ddiwedd pob sifft yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gofal a ddarperir.

Gwnaethom awgrymu y dylid cyflwyno siartiau i gofnodi pryd y mae cleifion yn cael eu troi neu eu symud. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i'r staff fonitro symudiadau'r cleifion ac yn ei dro yn lleihau'r risg y bydd cleifion yn datblygu briwiau pwyso.

Gwnaethom argymell hefyd y dylai adnodd asesu gael ei gyflwyno er mwyn helpu i nodi a thrin sepsis¹.

Roedd y gofal a ddarperir yn amlwg yn seiliedig ar anghenion penodol ac amrywiol y claf. Roedd y dull hwn o weithio wedi'i adlewyrchu yn fformat y ddogfennaeth cynllunio ac adolygu gofal, a oedd wedi'i deilwra ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain cymaint â phosibl. Lle nad oedd hyn yn bosibl, byddai'r hosbis yn ymgynghori â'r rhieni/gwarcheidwaid ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal a ddarperir.

Roedd dull amlddisgyblaethol o ddarparu gofal, gyda phrosesau cyfathrebu da ar waith. Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer cyfeirio newidiadau i anghenion cleifion i weithwyr proffesiynol eraill megis therapyddion lleferydd ac iaith a deietegydd.

Roedd y tîm yn gweithio gan ymgynghori â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a gofal lliniarol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Felly, gallai'r staff gael gafael ar gymorth a chynghor arbenigol yn ôl yr angen, er enghraifft gan feddygon ymgynghorol a fferyllwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cyflwyno siartiau i gofnodi pryd y mae cleifion yn cael eu troi neu eu symud.

Dylid cyflwyno adnodd asesu er mwyn helpu i nodi a thrin sepsis.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

¹Mae sepsis, a elwir hefyd yn wenwyn gwaed neu septisemia, yn gymhlethdod yn sgil haint neu anaf a all beryglu bywyd.

Gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ofalu amdanynt. Er enghraifft, caewyd drysau'r ystafelloedd gwely wrth roi gofal.

Roed Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)² yn cael eu cynnal yn ôl yr angen mewn cysylltiad â phobl ifanc dros 18 oed.

Roedd ffurflenni Peidiwch â Dadebru (DNAR) yn cael eu llenwi drwy ymgynghori â'r claf a/neu ei rieni/gwarcheidwad.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd Datganiad o Ddiben, Canllaw o Gleifion a gwefan yr hosbis yn cyfeirio at y gweithdrefnau pryderon a chwynion. Roedd y trefniadau hyn yn gyson â'r rheoliadau a'r safonau. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid hysbysebu'r weithdrefn gwynion mewn ffordd fwy gweladwy drwy roi posterï mewn lleoliadau amlwg yn yr hosbis.

Dyweddodd y staff wrthym mai nifer fach iawn o gwynion a geir am y gwasanaeth ac mai'r nod oedd delio â ffynhonnell y cwynion i'w datrys cyn gynted â phosibl ac osgoi'r angen i uwchgyfeirio.

Roedd blwch sylwadau yn yr ardal wrth y brif fynedfa. Roedd slipiau papur ar gael hefyd i bobl fynegi eu barn neu awgrymu ffyrdd o wella'r gwasanaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid hysbysebu'r weithdrefn gwynion mewn ffordd fwy gweladwy drwy roi posterï mewn lleoliadau amlwg yn yr hosbis.

² Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n fodd cyfreithlon i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er ei fudd pennaf ac os mai hon yw'r ffordd leiaf cyfyngol o gadw'r person yn ddiogel rhag niwed.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod y tîm staff yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd cyfarpar diogel ar gael ac yn cael ei ddefnyddio i helpu i drosglwyddo cleifion.

Roedd yr hosbis yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ffurfiol ar waith.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu lles a'u diogelwch

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd archwiliadau cyffredinol, archwiliadau clinigol mwy penodol ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Wrth edrych ar sampl o gofnodion gofal y cleifion, gwelsom fod asesiadau risg o friwiau pwysau yn cael eu cynnal wrth i gleifion gael eu derbyn i'r hosbis, a'u hadolygu yn rheolaidd. Roedd hyn hefyd yn wir am asesiadau risg o syrthio.

Roedd trefniadau diogelwch, gweithio ar alwad a chynllunio at argyfwng priodol ar waith.

Roedd y system larwm tân yn cael ei phrofi bob wythnos ac roedd y cyfarpar ymladd tân yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Roedd offer trydanol cludadwy wedi'u profi yn ôl y gofyn.

Yn ôl y rheolwr cofrestredig, roedd wrthi'n ystyried adnewyddu'r llawr pren yn yr ardal eistedd/chwarae awyr agored er mwyn lleihau'r risg o lithro a syrthio. Yn y cyfamser, rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'r llawr pren yn cael ei asesu'n rheolaidd a'i lanhau er mwyn lleihau unrhyw risg i gleifion, ymwelwyr a staff.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pawb a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y lleoliad yn lân ac yn daclus. Ymhlith y sylwadau yn yr holiaduron, roedd y canlynol:

“Mae Tŷ Gobaith fel pin mewn papur bob amser pan fyddwn yn ymweld, ac mae ystafell y claf bob amser wedi'i glanhau ac yn daclus pan fyddwn ni yno”

“Rydym wedi gweld bod Tŷ Gobaith yn lân ac yn daclus iawn bob amser, ac ni fu gennym achos i gwyno yn ystod yr holl flynyddoedd rydym wedi bod yn dod yma”

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith. Roedd un o'r nyrsys wedi'i dynodi fel y swyddog arweiniol ar gyfer rheoli heintiau yn yr hosbis. Roedd y nyrs wedi cael rhywfaint o hyfforddiant ar y pwnc ond teimlai y byddai'n elwa ar gael rhagor o hyfforddiant mwy cyfredol.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r archwiliadau hynny yn cael eu harddangos yn yr hosbis er mwyn i gleifion ac ymwelwyr eu gweld. Gwnaethom argymhell bod ymwelwyr yn cael gwybod am ganlyniadau archwiliadau o'r fath er mwyn iddynt allu gweld yn glir sut roedd y staff yn perfformio mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y gwasanaeth.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, megis menig a ffedogau untro i leihau croes-heintio, ac roeddent yn cael eu defnyddio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu'r dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod manau diheintio'r dwylo wedi eu lleoli'n strategol wrth ymyl mynedfeydd/allanfeydd at ddefnydd y staff ac ymwelwyr, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid rhoi hyfforddiant cyfredol i'r nyrs arweiniol ar gyfer atal a rheoli heintiau, yn gymesur â'i rôl a'i chyfrifoldebau.

Dylai canlyniadau'r archwiliadau gael eu harddangos yn yr hosbis i gleifion ac ymwelwyr weld sut mae'r staff yn perfformio mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y gwasanaeth.

Maeth

Wrth edrych ar sampl o ffeiliau gofal, gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed y cleifion wedi'u hasesu ar adeg eu derbyn i'r hosbis, a'u hadolygu'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal, a gwelsom fod siartiau monitro bob amser yn cael eu defnyddio lle'r oedd angen gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael hylifau a maeth a oedd yn briodol at eu hanghenion.

Gwelsom y staff yn annog cleifion a'u helpu i fwyta'n annibynnol.

Caiff yr holl brydau eu coginio'n ffres ar y safle.

Roedd system effeithiol ar waith i ddiwallu anghenion deietegol y cleifion, gyda'r staff gofalu a'r staff arlwyo yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd.

Rheoli meddyginiaethau

Cawsai'r cleifion eu hasesu i nodi faint o gymorth, os o gwbl, oedd ei angen arnynt er mwyn rheoli eu meddyginiaeth. Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol mewn cypyrddau y gellid eu cloi yn yr ystafell driniaeth.

Daw fferyllydd i'r hosbis bob wythnos i archwilio'r feddyginiaeth a rhoi cyfarwyddyd a chefnogaeth i'r staff.

Roedd pob aelod o'r staff a oedd â chyfrifoldebau am feddyginiaeth wedi'u hasesu i sicrhau eu bod yn gymwys o ran arferion meddyginiaeth diogel. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a gweld eu bod yn cael eu cadw'n dda ar y cyfan. Fod bynnag, gwelsom enghreifftiau lle nad oedd aelodau o'r staff wedi llofnodir siart ar ôl rhoi meddyginiaeth.

Ni chaiff strapiau arddwrn eu defnyddio fel rheol yn yr hosbis, gyda'r staff naill ai'n gwirio pwy yw'r claf drwy holi'r claf ei hun neu riant, os bydd riant yn bresennol, neu drwy ddefnyddio ffotograff o'r claf a gedwir gyda'r siartiau rhoi meddyginiaeth. Gwnaethom gynghori y dylid monitro ac adolygu'r arfer hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ystyried yn ddiogel ac yn unol â chanllawiau arfer da a gyhoeddir. Dylid hefyd adolygu polisïau a gweithdrefnau rhoi meddyginiaeth yr hosbis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r broses yn gywir.

Gwelsom fod y cyfarpar dadebru yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod i gyd o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cyfarpar dadebru i gyd yn cael eu cadw yn yr un man. Golygai hyn y byddai'n rhaid i staff, mewn argyfwng, gasglu cyfarpar o ddau leoliad yn yr hosbis a allai ohirio'r ymateb gan beryglu'r claf. Gwnaethom argymhell y dylid adolygu'r trefniadau storio, ac y dylai'r holl gyfarpar dadebru

gael eu storio yn yr un lleoliad, a hynny'n ddelfrydol mewn bag achos brys hawdd ei gario.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r aelodau o'r staff lofnodi'r siartiau meddyginiaeth ar unwaith ar ôl rhoi meddyginiaeth.

Rhaid mynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu'r broses o wirio pwy yw'r claf cyn rhoi meddyginiaeth, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei hystyried yn ddiogel ac yn unol â'r canllawiau arfer da a gyhoeddir. Dylid hefyd adolygu polisïau a gweithdrefnau rhoi meddyginiaeth yr hosbis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r broses yn gywir.

Dylai cyfarpar a chyffuriau dadebru gael eu storio yn yr un man, a hynny'n ddelfrydol mewn bag achos brys hawdd ei gario, er mwyn osgoi oedi diangen wrth ymateb i argyfyngau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu cyfredol yn yr hosbis ar adeg yr arolygiad.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan yr hosbis amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael a oedd mewn cyflwr da ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal cleifion, gwelsom fod cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol yn glinigol.

Gwelwyd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a'r staff therapi.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth gadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio cofnodion hyfforddiant, cadarnhawyd gennym fod yr holl aelodau o staff perthnasol wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Rheoli cofnodion

Canfuwyd gennym fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chleifion a staff yn cael ei chadw'n ddiogel, a hynny yn electronig ac ar bapur.

Roedd cofnodion y cleifion wedi'u cynnal yn dda ac roedd y ffeiliau wedi'u trefnu mewn ffordd a oedd yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd iddynt.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn yn yr hosbis, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan eu rheolwyr llinell.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi llywodraethu ac atebolrwydd yn yr hosbis.

Roedd systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau y rhoddir pwyslais ar wella'r gwasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau da, anffurfiol i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd ar waith.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o staff a chanfod eu bod yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Mae'r unigolyn cyfrifol (y Cyfarwyddwr Gofal) yn gweithio yn Hope House ond mae'n ymweld â Thŷ Gobaith bob wythnos. Mae hyn yn ei galluogi i fonitro'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn golygu ei bod ar gael i'r staff, y cleifion a'r perthnasau.

Mae Aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr hefyd yn ymweld â'r hosbis yn rheolaidd.

Roedd gan yr Ymddiriedolwyr drosolwg da o'r gwasanaeth drwy eu hymweliadau rheolaidd â'r hosbis a thrwy'r prosesau rheoli adrodd ac uwchgyfeirio.

Roeddem yn fodlon ar lefel yr oruchwyliaeth o'r gwasanaeth gan aelodau'r uwch dîm rheoli a'r bwrdd ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, gwnaethom dynnu sylw at yr angen i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau'n llawn o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mewn perthynas ag ymweld â'r hosbis a llunio a rhannu adroddiadau yn dilyn ymweliadau o'r fath.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau'n llawn o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mewn perthynas ag ymweld â'r hosbis a llunio adroddiadau yn dilyn ymweliadau o'r fath.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y soniwyd eisoes, roedd prosesau sefydledig ar waith i ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau. Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i nodi yn y Datganiad o ddiben, y Canllaw i Gleifion ac ar y wefan.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion yn ymwneud â phryderon a digwyddiadau, a chanfod yr ymdriniwyd â nhw yn unol â pholisïau'r hosbis.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom siarad â'r staff a dosbarthu holiaduron AGIC iddynt er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith, ac i ddeall eu barn ar ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion yn Nhŷ Gobaith. Derbyniwyd cyfanswm o 15 o holiaduron wedi'u cwblhau gan staff a oedd yn cyflawni amrywiaeth o rolau yn y lleoliad.

Nododd y mwyafrif o'r staff yn yr holiaduron eu bod wedi ymgymryd ag ystod eang o hyfforddiant neu ddysgu a datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant diogelwch tân, rheoli heintiau a lechyd a Diogelwch.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gyffredinol fod yr hyfforddiant neu'r dysgu a datblygu y maent yn ei gwblhau yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gofynion proffesiynol, yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth gwell i gleifion.

Dyweddodd bron pob aelod o'r staff a atebodd y rhan benodol hon o'r holiadur eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Lle y bo'n briodol, dywedodd yr aelodau o'r staff fod eu rheolwr wedi eu cefnogi i gael gafael ar y cyfleoedd hyfforddi, dysgu neu ddatblygu a nodwyd yn ystod y cyfarfodydd hyn. Ymhlith y sylwadau gan yr aelodau o'r staff roedd y canlynol:

“Rwy'n gallu gwneud cais am hyfforddiant os ydw i'n dod o hyd i rywbeth rwyf o'r farn y byddai'n fuddiol, ac ar y cyfan, mae'r sefydliad yn gefnogol iawn o hyn”

“Rydyn ni i gyd yn teimlo'n ffodus iawn i weithio i'r elusen hon. Rydyn ni'n cael hyfforddiant ac amser a chefnogaeth i gwblhau ein cymwyseddu”

Yn yr holiaduron, rhoddwyd nifer o ddatganiadau i'r staff yn ymwneud â gofal cleifion a gofynnwyd iddynt pa mor aml roeddent yn berthnasol yn eu profiad nhw. Dywedodd bron pob aelod o'r staff a atebodd y cwestiynau hyn fod preifatrwydd ac urddas y cleifion bob amser yn cael eu cynnal yn Nhŷ Gobaith, fod annibyniaeth cleifion yn cael ei hyrwyddo a bod y cleifion a/neu eu perthnasau bob amser yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu gofal. Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym hefyd eu bod bob amser neu fel arfer yn fodlon ar ansawdd y gofal maent yn ei roi i'r cleifion. Dywedodd un aelod o'r staff yn yr holiadur:

“Y plant a'r teuluoedd rydyn ni ac rydw i'n eu cefnog yw fy mlaenoriaeth bennaf i, a'r sefydliad”

Dyweddodd cyfran fawr o'r aelodau o'r staff a gwblhaodd holiadur nad oeddent weithiau'n gallu bodloni'r holl alwadau a oedd yn cystadlu am eu hamser yn y gwaith, ond gwnaethant ddweud fod digon o staff yn y sefydliad i wneud eu gwaith yn iawn.

Roedd y staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar digonol i wneud eu gwaith, a gwnaethant ddweud eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwaith eu tîm neu eu hadran. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff nad oeddent yn

cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ar gyflwyno newidiadau a oedd yn effeithio ar eu maes gwaith, eu tîm neu eu hadran.

Gofynnwyd i'r staff yn yr holiaduron sgorio pa mor aml yr oedd nifer o ddatganiadau yn ymwneud â'u sefydliad yn berthnasol yn eu profiad nhw. Teimlai'r mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiynau hyn fod y sefydliad yn gefnogol, a bod y gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â'r cleifion bob amser yn cael eu grymuso i ddweud a gweithredu pan fydd materion yn codi, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysra proffesiynol eu hunain.

Roedd y staff a gwblhaodd y gyfres hon o gwestiynau yn yr holiadur hefyd yn cytuno'n gyffredinol fod gan y sefydliad y wybodaeth gywir er mwyn monitro ansawdd y gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol bob amser, a'i fod yn gweithredu'n gyflym lle bo diffygion, a bod diwylliant o fod yn agored a dysgu o fewn y sefydliad, sy'n cefnogi'r staff i nodi problemau a'u datrys.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur fod y sefydliad bob amser yn annog gwaith tîm ac o'r farn mai gofalu am y cleifion yw blaenoriaeth bennaf y sefydliad a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno, pe byddai ffrind neu berthynas angen triniaeth, y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad, ac yn cytuno hefyd y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio ynddo.

Roedd bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn gwybod bod adborth ar brofiad cleifion (e.e. arolygon cleifion) yn cael ei gasglu, a dywedodd dros hanner y staff eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion. Roedd y staff yn cytuno hefyd fod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn yr hosbis.

Wrth edrych ar rotas staff, gwelwyd bod y lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofal y cleifion a oedd yn aros yno. Byddai staff ychwanegol yn cael eu dyrannu pe byddai cleifion ag anghenion gofal lefel uchel yn cyrraedd. Roedd yna gronfa o staff wrth gefn y gellid galw arnynt i gynnig darpariaeth ychwanegol pe bai angen.

Anogwyd y staff i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi mewnol ac allanol. Roedd y staff yn gallu cael gafael ar ddeunydd e-ddysgu, ar gyfrifiaduron.

Mae'r hosbis yn cyflogi rheolwr hyfforddiant a oedd yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o adolygu polisïau, archwilio a datblygu staff.

Roedd yr holiaduron yn holi'r plant a'u rhieni yn yr holiaduron a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am y staff yn Nhŷ Gobaith. Lle y bo'n briodol, roedd pawb yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwranddo arnynt, ac yn cytuno bod y staff wedi siarad am eu cyflyrau meddygol ac wedi'u helpu i ddod i'w deall. Ymhlith y sylwadau am y staff yn yr holiaduron, roedd y canlynol:

“Mae'r staff yn Nhŷ Gobaith yn hawdd mynd atynt ac yn barod eu cymwynas bob amser. Maent bob amser yn broffesiynol ac yn gefnogol i'r claf a'r gofalwyr”

“Rwyf bob amser yn teimlo ei bod hi'n ddiogel i adael fy mab yn Nhŷ Gobaith ac nid wyf yn pryderu nad yw ei anghenion yn cael eu diwallu”

“Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar, yn gwrtais ac yn broffesiynol”

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Cedwid at arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn unol â rheoliadau a safonau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion chwe aelod o'r staff a chanfod bod yr hosbis wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn y swydd.

Holwyd cwestiynau i'r staff yn yr holiadur am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol. Roedd y staff yn cytuno bod eu rheolwr yn annog eu staff i weithio fel tîm, ac yn dweud y gellid dibynnu ar eu rheolwr i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym yn yr holiaduron fod eu rheolwyr yn rhoi adborth clir ar eu gwaith, a'u bod yn gofyn am eu barn cyn i benderfyniadau gael eu gwneud a fyddai'n effeithio ar eu gwaith. Cytunodd y rhan fwyaf o'r staff hefyd fod eu rheolwr bob amser yn gefnogol mewn argyfwng personol.

Gwnaeth rhai aelodau o'r staff y sylwadau canlynol am eu rheolwyr yn yr holiaduron:

“Rwyf bob amser wedi cael fy nghefnogi'n bersonol ac yn broffesiynol. Mae hyn wedi ei gwneud yn bosibl i fi gael cydbwysedd rwng bywyd a gwaith er mwyn i fi allu ymrwymo 100% i bopeth a wnaf”

“Rwy'n teimlo bod y rheolwyr yn gefnogol, yn anogol ac yn ddibynadwy. Caf adborth ar fy ngwaith mewn modd adeiladol a pharchus. Rwyf bob amser yn teimlo bod fy rheolwr yn fy nghefnogi pan fydd angen”

Holwyd cwestiynau i'r staff yn yr holiaduron am eu huwch reolwyr. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr adran hon o'r holiadur eu bod bob amser yn gwybod pwy oedd yr uwch reolwyr yn y sefydliad, ac yn teimlo bod yr uwch reolwyr bob amser yn ymrwymedig i ofal y cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch reolwyr a'r staff fel arfer, a bod yr uwch reolwyr gan amlaf yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig, ac yn gweithredu ar adborth gan staff. Roedd sylwadau gan aelodau o'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Rwyf wedi gwerthfawrogi presenoldeb amlwg yr uwch reolwyr o'n chwaer hosbis dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Mae wedi bod yn dda cael cyfle i ryngweithio wyneb yn wyneb yn hytrach na thrwy'r e-bost neu dros y ffôn. Rwy'n gobeithio y bydd y presenoldeb hwn yn parhau yn y tymor hwy”

“Weithiau, nid ydym ni bob amser yn clywed am wybodaeth a phethau sy'n digwydd rhwng yr hosbisau a rhwng uwch reolwyr a'r staff”

Holwyd y staff yn yr holiaduron a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y swydd, ar y cyfan, yn llesol i'w hiechyd; roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno â'r datganiad. Roedd cyfran debyg o'r staff hefyd yn dweud bod eu rheolwr llinell uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u lles a bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a lles. Ymhlith y sylwadau gan y staff yn yr holiaduron, roedd y canlynol:

“Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda o ran fy llesiant fy hun. Rhoddir gwerth ar sesiynau dadfriffio, goruchwyliaeth glinigol, cwnsela a chymorth gan gymheiriaid, a chânt eu hannog”

“Cymysgedd o sifftiau - dydd, nos, diwrnodau hir ac ati. Mae'r newid cyflym rhwng gweithio sifftiau nos i sifftiau dydd yn flinedig ac yn peri straen”

Dywedodd un aelod o'r staff yn yr holiaduron ei fod wedi gweld camgymeriad, rhywbeth y bu bron iddo ddigwydd neu ddigwyddiad a allai fod wedi niweidio staff yn ystod y mis diwethaf.

Lle y bo'n gymwys, roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, sefyllfaoedd a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiadau, ac yn cytuno ar ôl cael gwybod amdanynt, y byddai'r sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto. Gwnaeth rhai aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

“Rwy'n teimlo wedi fy ngrymuso i leisio pryderon ac yn hyderus y gweithredir arnynt yn briodol. Anogir defnyddwyr gwasanaethau i wneud awgrymiadau/rhoi adborth ac rwy'n teimlo y gweithredir ar hyn”

“Nid ydym yn dueddol o gael adborth ar ddigwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd, boed ar yr ochr ofalu neu'r ochr weinyddol, os oes rhai'n codi byth”

Roedd y staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno bod y sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â gwall, sefyllfa a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiad yn deg. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff hefyd eu bod yn teimlo bod y sefydliad yn ymdrin ag unrhyw wall, sefyllfa a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiadau yn gyfrinachol, a dywedodd pob un ond dau aelod o'r staff eu bod yn cael adborth am newidiadau a wneir mewn ymateb i wallau, sefyllfaoedd a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiadau a adroddir.

Yn yr holiaduron, dywedodd ychydig o dan hanner y staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo nad yw eu sefydliad yn beio neu'n cosbi pobl sy'n gysylltiedig â gwallau, sefyllfaoedd a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiadau.

Dywedodd pob un ond un o'r aelodau o'r staff a gwblhaodd holiadur pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Dywedodd y mwyafrif o'r aelodau o'r staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel ac y byddent yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon. Dywedodd un aelod o'r staff:

“Cawn ein hannog i lenwi ffurflenni digwyddiadau meddygol a digwyddiadau nad ydynt yn feddygol o ran unrhyw ddigwyddiad a allai achosi anaf neu niwed. Mae hwn yn

brofiad dysgu nad yw'n bwrw bai i bob aelod o'r staff ei ddefnyddio"

Roedd y staff a gwblhaodd yr holiadur hefyd yn teimlo bod eu sefydliad yn gweithredu'n deg o safbwynt datblygiad gyrfa neu ddyrchafu, ac nad oedd unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oedran.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r personau cofrestredig fyfyrion ar rai o'r ymatebion llai ffafriol gan y staff mewn ymateb i rai o'r cwestiynau yn adroddiad AGIC, fel y nodwyd yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad hwn, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hosbis i Blant Tŷ Gobaith

Dyddiad arolygu: 9 a 10 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylid cyflwyno siartiau i gofnodi pryd y mae cleifion yn cael eu troi neu eu symud. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i'r staff fonitro symudiadau'r cleifion ac yn ei dro yn lleihau'r risg y bydd cleifion yn datblygu briwiau pwysu.	8. Cynllunio a Darparu Gofal	1) Mae siart troi/symud wedi'i lunio 2) Mae ein hasesiad risg wedi'i addasu i roi cyfarwyddyd i ddefnyddio'r siart newydd 3) Bydd y tîm gofal yn cael cyflwyniad ar ddefnyddio'r siart yn y cyfarfod tîm ar 11/12/18	Ann Williams	1) Wedi'i gwblhau 2) Wedi'i gwblhau 3) 11/12/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid cyflwyno adnodd asesu er mwyn helpu i nodi a thrin sepsis.		<ol style="list-style-type: none"> 1) Nodwyd uwch nyrs i arwain y prosiect 2) Dod o hyd i boster sy'n egluro symptomau sepsis gan Ymddiriedolaeth Sepsis y DU (archebwyd ar 06/12/18), arddangos y poster yn yr ystafell glinigol ac yn swyddfa'r nyrsys pan ddaw i law 3) Ymchwilio i'r adnoddau asesu sydd ar gael a dewis un priodol ar gyfer Tŷ Gobaith. 4) Cynnal Cynllun Peilot 4 mis ar gyfer yr adnodd a chasglu sylwadau gan Nyrsys a Chynorthwyr Gofal iechyd 5) Ar ddiwedd y Cynllun Peilot, yr adnodd i gael ei gymeradwyo gan y Panel Polisi Clinigol 	Kate Jones	<ol style="list-style-type: none"> 1) Wedi'i gwblhau 2) 14/12/18 3) 05/01/19 4) Mai 2019 5) Mehefin 2019
Dylid ystyried gosod cyfleuster dolen glywed i helpu cleifion ac ymwelwyr â nam ar eu clyw.	Rheoliad 18. (1) (b) 18. Cyfathrebu effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd ystyriaeth i hyn ac ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw gleientiaid na chyflogeion a fyddai'n elwa ar hyn. • Bydd dolen glywed neu adnodd cyfathrebu priodol arall yn cael ei ystyried a'i gaffael pan nodir bod 	Ann Williams/Penn aeth Gofal	Wedi'i gwblha ond parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ei angen ar gyflogai, darpar gyflogai neu gleient		
Dylid hysbysebu'r weithdrefn gwynion mewn ffordd fwy gweladwy drwy roi posteri mewn lleoliadau amlwg yn yr hosbis.	5. Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth 23. Delio â Phryderon a rheoli digwyddiadau	Mae poster wedi'i lunio yn Gymraeg ac yn Saesneg sy'n rhoi gwybod i deuluoedd ac ymwelwyr sut i wneud cwyn, neu roi canmoliaeth neu sylwadau	Ann Williams	Wedi'i gwblhau
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylid rhoi hyfforddiant cyfredol i'r nyrs arweiniol ar gyfer atal a rheoli heintiau, yn gymesur â'i rôl a'i chyfrifoldebau.	Rheoliad (7) ac (8) 13. Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	1) Ymchwilio a nodi Hyfforddiant Rheoli Heintiau pellach priodol a pherthnasol 2) Mynychu'r hyfforddant pellach	Dawn Lowe, nyrs arweiniol ar gyfer Rheoli Heintiau, a'r Pennaeth Gofal	1) Erbyn 10/01/19 2) Cwblhau cyn diwedd 2019
Dylai canlyniadau'r archwiliadau gael eu harddangos yn yr hosbis i gleifion ac ymwelwyr weld sut mae'r staff yn perfformio mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y gwasanaeth.		Mae ail boster wedi'i lunio (yn Gymraeg ac yn Saesneg) sy'n cyfeirio teuluoedd ac ymwelwyr at ffeil wybodaeth y gallant ei defnyddio, sy'n cynnwys: Datganiad o Ddiben, Prosesau Iechyd a Diogelwch, Adroddiad Arolygu AGIC, Crynodeb o'r	Ann Williams	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		broses Rheoli Heintiau, Polisi Derbyn a'r broses Apelio, y polisi a'r weithdrefn Cwynion, Archwiliadau a chanlyniadau, Sut i ddefnyddio unrhyw un o'n gwasanaethau a'r Trefniadau Arlwyo.		
Rhaid i'r aelodau o'r staff lofnodi'r siartiau meddyginiaeth ar unwaith ar ôl rhoi meddyginiaeth.	Rheoliad 9 (1) (m) a 15 (5) (a) a (b) 15. Rheoli Meddyginiaeth	<p>1) Cafodd yr holl Nyrsys a Chynorthwyr Gofal Iechyd eu hatgoffa am hyn yn y Log Gwybodaeth.</p> <p>2) Eitem Agenda ar gyfer y cyfarfod tîm nesaf ar 11/12/18</p> <p>3) Mae'r Weithdrefn Gweithredu Safonol yn cael ei haddasu a chaiff ei chadarnhau yn y Cyfarfod Rheoli Meddyginiaeth nesaf ar 18/12/18</p>	Ann Williams Gwyn Morgan Ann Williams	Wedi'i gwblhau 11/12/18 18/12/18
Rhaid mynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu'r broses o wirio pwy yw'r claf cyn rhoi meddyginiaeth, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei hystyried yn ddiogel ac yn unol â'r canllawiau arder da a gyhoeddir. Dylid hefyd adolygu polisïau a gweithdrefnau rhoi meddyginiaeth yr hosbis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r		Addaswyd y weithdrefn i sicrhau bod ffotograff plentyn yn cael ei ddiweddarau yn ei ffeil bob 12 mis, a bod ffotograffau newydd yn cael eu tynnu yn lle'r hen rai	Karen Wright	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
broses yn gywir.				
Dylai cyfarpar a chyffuriau dadebru gael eu storio yn yr un man, a hynny'n ddelfrydol mewn bag achos brys hawdd ei gario, er mwyn osgoi oedi diangen wrth ymateb i argyfyngau.		<ol style="list-style-type: none"> 1) Ceisiwyd cyngor ar y lleoliad gorau ar gyfer cyfarpar brys a gwybodaeth am gynhwysydd/bag priodol. Swyddog o Dîm Hyfforddi Dadebru Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ymwneud â Thŷ Gobaith ar 13/12/18 2) Yn dilyn yr ymweliad uchod, byddwn yn prynu'r cynhwysydd priodol ac yn rhoi'r cyfarpar yn y man priodol ar ôl cael y cyngor arbenigol 	Ann Williams	13/12/18 21/12/18
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau'n llawn o dan Rheoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mewn perthynas ag ymweld â'r hosbis a llunio adroddiadau yn dilyn ymweliadau o'r fath.	Rheoliad 28 1. Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	<ol style="list-style-type: none"> 1) Mae ffurflen yn cael eu llunio i'r Ymddiriedolwyr ei defnyddio pan fyddant yn ymweld 2) Bydd adroddiad yn cael ei anfon at AGIC gan ddefnyddio'r ffurflen bob chwe mis 	Ann Williams Karen Wright	13/12/18 Erbyn mis Ebrill 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r personau cofrestredig adlewyrchu ar rai o'r ymatebion llai ffafriol gan y staff mewn ymateb i rai o'r cwestiynau yn adroddiad AGIC, fel y nodwyd yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad hwn, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.</p>	<p>Rheoliad 19. (2) (e) 24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu</p>	<p>Fel sefydliad, rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella'r broses o gyfathrebu â'r Tîm. Bydd yn gwneud y canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Newid ein cyfarfod adolygu cyflym i gyfarfod Tîm Amlddisgyblaethol llawn a bydd unrhyw aelod o'r tîm gofal yn gallu mynychu neu wneud cais i eitem gael ei thrafod, os yw'n briodol. 2) Bydd ein staff Busnes a TG yn dod i Dŷ Gobaith yn rheolaidd fel bod unigolion yn gallu galw heibio i gael cyngor. 3) Bydd adroddiadau yn cael eu llunio yn dilyn ymweliadau anffurfiol yr ymddiriedolwyr, a fydd yn cynnwys amser i drafod unrhyw faterion ag aelodau unigol o'r staff, a'r plant a'r teuluoedd sy'n bresennol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys ymateb y rheolwyr, a bydd yn cael ei 	<p>Gwyn Morgan</p> <p>Phillipa Harris</p>	<p>Ionawr 2019</p> <p>Ionawr 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>anfon at AGIC ac yn cael ei arddangos i'r staff gael ei weld.</p> <p>4) Bydd adroddiad chwarterol anhysbys o ddigwyddiadau lechyd a Diogelwch yn cael ei lunio, a bydd yr adroddiad digwyddiadau Rheoli Meddyginiaeth yn cael ei newid i gynnwys adran ar "dysgu/newidiadau ar ôl digwyddiadau". Caiff y rhain eu harddangos ar gyfer y tîm gofal.</p>		

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Ann Williams

Teitl swydd: Pennaeth Gofal

Dyddiad: 06/12/18